Taith 3e

Môr a Mêl

Dechrau a Diwedd: . . . . . Canolfan Croeso Cei Newydd
Parcio:. . . . . Unrhyw un o brif feysydd parcio Cei Newydd
Amcangyfrif o'r pellter: . . . . . **30 milltir**
Amser a ganiateir: . . . . . **4 - 6 awr**
I gwblhau'r llwybr cyfan heb stopio, yn dibynnu ar lefelau ffitrwydd. Mae rhai bryniau serth iawn ar y llwybr.
Trafnidiaeth gyhoeddus agosaf: *Gwasanaeth bysys*: Cei Newydd.
Rheilffordd: Aberystwyth
Cydrannau ac Offer Beiciau agosaf: Cyclemart, Cilcennin 01570 470079.
Gwasanaethau eraill yn Aberystwyth ac Aberteifi

Cwmtydu

Gan ddechrau o Ganolfan Croeso'r Cei Newydd, mae'r llwybr heriol ond gwerth chweil hwn yn cynnwys rhai o'r golygfeydd mwyaf godidog ar y rhan hon o arfordir Ceredigion. Ar ôl dringo i ddechrau allan o'r dref, dechreuwch ar antur a fydd yn cynnwys pentrefi arfordirol Cwmtydu a Llangrannog a phentrefannau Llwyndafydd a Phontgarreg.

Gorffwyswch am ennyd yn nhawelwch cildraeth Cwmtydu a'i hen hanes am forladron ac efallai y cewch eich gwobrwyo gan olygfa o lamhidyddion a morloi yn yr harbwr neu ddolffiniaid trwynbwl lleol Bae Ceredigion ond cofiwch nad ydynt yn berfformwyr i orchymyn! Dysgwch fwy am fywyd gwyllt y Bae ar ôl dychwelyd i'r Cei Newydd drwy ymweld â Chanolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion.

Ewch yn eich blaen i bentref glan môr Llangrannog gyda'i ddau draeth tywodlyd a theithiau cerdded trawiadol ar hyd y clogwyni, lle mae sawl cenhedlaeth o blant Cymru wedi mwynhau gwyliau yng ngwersyll yr Urdd a lle y gall y cyhoedd roi cynnig ar y ganolfan sgïo drwy drefniadau blaenorol.

Ar y ffordd, ymwelwch â Fferm Mêl Cei Newydd - y fwyaf yng Nghymru - i gael cipolwg diddorol ar fyd unigryw'r wenynen.

Cewch y dewis hefyd o ychwanegu at y daith, i archwilio'r llwybrau cerdded trwy goedwig Penbryn at y traeth (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), ac i draeth Baner Las Tresaith

Cofiwch ganiatáu diwrnod cyfan i gymryd eich amser i fwynhau'r daith.

Fferm Mêl y Cei Newydd

Canolfan Croeso Aberaeron
(ar agor drwy'r flwyddyn),
Pencei, Aberaeron
Ffôn: 01545 570602

Canolfan Croeso Cei Newydd
(tymhorol Pasg i ddiwedd Medi),
Heol yr Eglwys, Cei Newydd.
Ffôn: 01545 560865